Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-
ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

1419 e. 6116

# RHODD I'TH GYMMYDOG;

NEU

*Ychydig Ystyriaethau Buddiol*

AM

ADNABYDDIAETH GYWIR O DDUW,

AC

O HONOM EIN HUNAIN.

—o—

*Gan Sir* RICHARD HILL, *Marchog.*

—o—

Y Pummed Argraffiad, gydag ychydig Gyfnewidiad.

1 TIM. i. 15.

Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid.

BALA,

ARGRAFFWYD GAN R. SAUNDERSON.

—o—

1805.

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor.

BODLEIAN LIBRARY 21 JUL 196

# RHAGYMADRODD.

—o—

*Y TRAETHAWD canlynol a ysgrifenwyd wrth daer ddeisyfiad ychydig o gyfeillion crefyddol, ag oedd arnynt eisieu rhyw beth o'r fath i'w roddi i ffwrdd. Er fod amryw o lyfrau rhagorol wedi eu 'sgrifenu i'r dyben hwn, etto mae rhai yn rhy hir o lawer i ddynion llafurus allu cael amser i'w darllen drwyddynt—ereill yn rhy fyr o lawer i allu cynnwys holl swm crefydd, a chyrraedd cyflwr bob darllenydd—a'r rhan fwyaf goruwch deall y tlodion. Ymegnïais i ochelyd yr anghymhwysderau hyn, drwy astudio iaith esmwyth, a chynnwys holl bynciau sylweddol Cristianogrwydd o fewn mor lleied cwmpas ag y medrwn, fel na byddai i'r darllenydd, ar y naill law fod yn anwybodus o ddim o'r gwirioneddau hyny a berthyn i'w dragywyddol iechydwriaeth; nag ar y llaw arall, lwytho a dyrysu ei feddwl, na cholli amser trwy faithder diles. Amcenais hefyd addasu y llyfran hwn at amrywiol gyflyrau pawb a'i darlleno, gan obeithio y bydd iddo fod, yn air yn ei amser, i ddeffrôi yr esgeulus, i ddidwyllo y ffurfiol a'r hunan-gyfiawn, i gysuro y llesg eu meddwl, i adferyd y gwrthgiliedig, ac i adeiladu credinwyr mwy sefydlog mewn ffydd, gobaith, a chariad; ac mewn ymarferiad o bob gair a gweithred dda.*

*Hyn oedd fy nybenion wrth gasglu y llyfr bychan hwn; a thaer weddïaf ar iddynt gael eu hateb yn iechydwriaeth pob darllenydd; pe hyn fyddai, ïe, pe byddai un enaid yn well erddo, dymunaf roddi yr holl glod pa le yn unig mae yn ddyledus, a dywaid bob amser, "I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faine, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes ...dd."* Dad. v. 13.

## PENNOD I.

### AM DRAGYWYDDOLDEB.

BETH bynag a ddichon fod swydd a galwedigaeth neb o honom, y mae genym bawb ambell awr segur; ac nis gallwn ei threulio yn well nag wrth ofalu am lesâad ein heneidiau, y rhai a fyddant yn fuan yn ddedwydd neu yn druenus yn dragywyddol mewn byd arall........A ddarfu ni erioed ystyried mor bwysig yw yr un gair hwn TRAGYWYDDOLDEB! A ddarfu i ni erioed feddwl yn sobr mor ddiderfyn fydd! Pan yr elo myrddiynau a myrddiynau o oesoedd heibio, ni bydd *tragywyddoldeb* etto ond dechreu. Nid oes rhyngom ni a'r byd diderfyn hwn, ond yr anadl sydd yn ein ffroenau, yr hon fel mwg yn fuan a ddiflana, a ni a ehedwn ymaith. Tra ofnadwy a phwysig ydyw yr ystyriaeth o hyn!........Y mae agos i chwe' mîl o flynyddoedd er crëedigaeth y byd; y mae torf fawr nas dichon neb eu rhifo, o ddynion, wedi byw a marw er y pryd hyny, ïe, y rhai mwyaf nerthol a hir-hoedlog a dorwyd i lawr, yn ddiarbed gan angeu, yn y diwedd. Yr hyn a 'sgrifenwyd am yr hen deidiau cyn y dylif, a ellir ei 'sgrifenu hefyd am bob un a fu byw er hyny hyd yn hyn, "Ac efe a fu farw." Gen. v. Ac yn wir, wrth ystyried a chymharu *amser* â *thragywyddoldeb*, a chan nad yw "un dydd gydâ yr Arglwydd ond megis mîl o flynyddoedd, a mîl o flynyddoedd ond megis un dydd," 2 Pet. iii. 8. nid yw yr oes hwyaf ond megis lled-llaw, ac a ehed ymaith yn gynt na gwenol gwehydd......Dyn a aned

wraig sydd fyr o ddyddiau, ac yn llawn o helbul; megis llysieuyn y blagura, ac efe a dorir i lawr; efe a ddiflana fel cysgod, ac ni saif.....Yn nghanol bywyd yr ydym ni mewn angeu.

Gan hyny, pawb, ond yr hollol anystyriol, a ofynant iddynt eu hunain, yr ymofyniad pwysfawr hwn:—"Gan na byddaf ond byr enyd yn y byd hwn, ac a allaf gael fy nhroi allan o hono, heb un funud o rybydd,—a ydwyf fi yn barod i farw, ac yn gymmwys i fyned i *dragywyddoldeb?"*..........Diammeu ei fod yn ymofyniad o'r pwys mwyaf i bob un, ac y dylem ei ateb i ni ein hunain gydâ y gofal a'r ffyddlondeb mwyaf. Er y gallwn dwyllo ein hunain ac ereill hefyd, etto nis gallwn dwyllo y Duw hwnw sydd a'i lygaid fel fflam dân; yr hwn sydd yn chwilio y calonau, ac yn profi yr arenau, ac yn gofyn gwirionedd yn y dyn oddimewn. Dad. i. 14. "Iddo ef y mae pob calon yn agored, a phob deisyf yn gydnabyddus, a rhag yr hwn nid oes dim dirgel yn guddiedig." Er y dylai pob un lafurio yn yr alwedigaeth y gosododd Duw efe ynddi, gydâ diwydrwydd, etto rhaid i bawb gyfaddef y dylid gofalu am yr enaid yn benaf dim. Ni a gyfrifem yn ynfyd y dyn a gymmerai fwy o boen ynghylch annedd, yn yr hon ni chai aros ond *ychydig* ddyddiau neu oriau, nag ynghylch un y byddai yn sicr o aros ynddi *tra y byddai byw:* Felly, ynfyd yngolwg Duw, yw y neb a garo y byd, a'r pethau sydd yn y byd, o ba un y mae yn rhaid iddo ymadael yn fuan, ac a esgeulusa ei enaid anfarwol, heb ofalu ychydig neu ddim am "dŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd." 2 Cor. v. 1.

Bydded i bob un, gan hyny, ofyn iddo ei hun —"Gan na byddaf ond byr amser yn y byd hwn, ac allaf gael fy nghymmeryd allan o hono heb funud o

rybydd, a ydwyf fi yn barod i farw, ac yn gymmwys i fyned i *dragywyddoldeb?*"....O ymofyniad tra-phwysfawr! cynnorthwyed yr Arglwydd bob un i'w ateb yn gywir, heb weniaeth, ac yn ddidwyll.

## PENNOD II.

### AM WYBODAETH O DDUW.

I'CH cynnorthwyo i'w ateb yn gywir yr ymofyniad pwysfawr uchod, mi a ofynaf i chwi,—1. Beth a wyddoch am Dduw?—2. Beth a wyddoch am danoch eich hunain?.....Fe ddywedir am St. *Austin* iddo dreulio amryw oriau yn y dirgel, yn gweddïo ar yr Arglwydd, heb ddywedyd dim ond y geiriau hyn—" Arglwydd dysg fi i'th adnabod di,—dysg fi i adnabod fy hun."

Yn llyfr Duw, y BIBL, y ceir cywir ddadguddiad am yr Arglwydd, ac am danom ein hunain. 1. Beth gan hyny a ddysgasoch yn y Bibl am yr Arglwydd? A ydym ni, nid yn unig yn credu yn gyffredin, *bod* Duw, ond yn adnabod hefyd, *pa fath fod* yw y Duw hwnw? Y mae yr ysgrythyrau yn tystiolaethu fod mawredd digyffelyb a diderfyn yn perthyn yn hanfodol i'r Arglwydd; ei fod yn gwbl ac yn anfeidrol berffaith, hawddgar, a gogoneddus, ac heb ddim anmherffeithrwydd ac anhawddgarwch ynddo. Y mae yn berffaith dda, ac heb ddim ond daioni ynddo: yn anfeidrol ddoeth, ac heb ddim yn groes i hyny: y mae yn hollalluog, heb ddim gwendid: y mae yn hanfodol gyfiawn, ac yn ddigyfnewid sanctaidd: yn drugarog ac yn raslawn, heb ddim creulondeb: y mae ei ffyddlondeb yn ddiball; ei awdurdod yn oruchel, a'i frenhiniaeth ar bob peth. Y mae yn hunanfodol ei hun; ac yn rhoddi bod i bob peth arall. Y

mae pob peth yn byw, yn symud, ac yn bod ynddo: ac nid yw pawb ond megis dim mewn cymhariaeth iddo. Y mae pob creadur rhesymol, sef dynion ac angylion, yn gyfrifedig iddo, am eu holl-weithredoedd. Heb adnabod y Duw hwn, nis dichon i ni weled y mawr ddrwg o bechu yn ei erbyn; mor ofnadwy yw bod dan ei wg a'i ddigofaint; ac mor anfeidrol werthfawr a dedwydd yw bod yn ei heddwch a'i ffafr. Ei wg yw uffern, a thrueni tragywyddol; a'i ffafr a'i heddwch yw nefoedd o ddedwyddwch byth. Yn yr adnabyddiaeth o hono nis gallwn lai na galaru a chywilyddio, a ffieiddio ein hunain mewn llwch a lludw, am i ni erioed bechu yn erbyn y fath un; i ni angharu Duw perffaith dda a hawddgar; diystyru yr hwn yr oeddym dan y rhwymedigaethau mwyaf iddo; a gwrthryfela yn erbyn ein cyfiawn Arglwydd, ac yn erbyn y llywodraeth mwyaf cyfiawn a thirion a ddichon byth fod.

Y mae Duw wedi amlygu ei hun yn ei air sanctaidd, yn DAD, MAB, ac YSPRYD GLAN;—yn dri pherson yn yr un hanfod tragywyddol, mewn dull angenrheidiol o fod; heb un cynt na chwedi eu gilydd, heb un mwy na llai na'u gilydd; ond yn ogyd-dragywyddol, ac yn ogyfuwch. *Y mae y Tri yn Un, a'r Un yn Dri:* Y mae yr Un Hanfod Dwyfol yn Dri Pherson, a'r Tri Pherson yn Un Hanfod Anfeidrol, mewn dull angenrheidiol o fod. Y mae y Tad yn Dad i'r Mab; a'r Mab yn Fab i'r Tad; a'r Yspryd Glân yn Yspryd y Tad a'r Mab, yn hanfodol ac yn angenrheidiol yn yr Hanfod Dwyfol. Dyma y Duw a'n creodd ni, sydd yn ein cynnal bob munud, yr hwn y mae yn ddyledus arnom ei garu â'n holl galon; ei ofni, ei barchu, ac ufuddâu iddo yn gwbl, ac yn hollol dros byth. Y mae mwynâad o hono sydd anfeidrol

ddedwyddwch, ei absennoldeb a'i wg sydd yn eithaf trueni.

## PENNOD III.

### AM WYBODAETH O HONOM EIN HUNAIN.

I'R dyben i ni gael iawn adnabyddiaeth o honom ein hunain, a'r cyflwr yr ydym ni bawb ynddo, rhaid i ni ddeall i'r Arglwydd greu ein rhieni cyntaf, Adda ac Efa, ar ei ddelw ei hun, yn bur ac yn berffaith, mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. Pan edrychodd Duw ar holl waith y grëedigaeth, yn enwedig dyn, efe a ddywedodd, "Da iawn ydoedd." Ond ni arosodd y dyn ond byr enyd yn y cyflwr sanctaidd a dedwydd hwn yn mha un y creodd Duw ef. Efe a anufuddäodd i orchymyn Duw; efe a fwytäodd o'r pren yr hwn y gwaharddodd Duw iddo fwyta o hono dan boen marwolaeth. Yn ganlynol i'w anufudd-dod, efe a fu farw: fe ddygodd arno ei hun, a'i holl hiliogaeth, farwolaeth naturiol, ysprydol, a thragywyddol. "Trwy anufudd-dod yr un dyn hwn," sef Adda, "y gwnaethpwyd llawer," sef ei holl hiliogaeth, "yn bechaduriaid;" a thrwy gamwedd yr un dyn hwn, y daeth barn ar bob dyn i gondemniad. Rhuf. v. Fe bechodd pawb, ac fe fu pawb feirw yn Adda. Yr oedd efe yn ben-cyfammodwr, ac yn gynnrychiolwr i'w holl hiliogaeth: ac, fel y cyfryw, yr oedd ei weithred ef o ufudd-dod neu anufudd-dod yn weithred iddynt hwy, ac yn gyfrifedig iddynt: "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb." Rhuf. v.—Ni buasai neb, o un oedran, yn marw, oni bai ei fod yn euog; ac am ei fod yn euog, y mae pob un yn marw. Trwy

y trosedd hwn, fe gollodd y dyn, a'i holl hiliogaeth, y cyfiawnder gwreiddiol oedd ganddo cyn pechu: fe gollodd heddwch a chymdeithas â Duw: fe gollodd ddelw Duw, sef iawn adnabyddiaeth o Dduw, a phob tebygolrwydd sanctaidd iddo. Ymadawodd yr Yspryd Glân âg ef; a chydâ hyny, fe ymadawodd pob harddwch a dedwyddwch âg ef. Fe dywyllodd ei ddëall o ran iawn adnabyddiaeth o Dduw: fe aeth ei ewyllys yn gyndyn, a'i galon yn elyniaeth yn erbyn Duw: y mae ei feddyliau yn wag ac yn ofer, a'i serchiadau yn gnawdol ac yn bechadurus, fel y mae yn caru y peth y mae Duw yn ei gasâu, ac yn casâu y peth y mae Duw yn ei garu. Y mae fel hyn wrth naturiaeth yn hollol bechadurus, yn euog ac yn halogedig, ac yn blentyn digofaint. Ps. li. 5. Eph. ii. 3. Y mae dyn fel hyn yn wreiddiol yn bechadurus, yn euog, ac yn llygredig, wedi ei eni mewn pechod, ac wrth natur yn blentyn digofaint: ac y mae yn angenrheidiol anhepcorol er ein hiechydwriaeth, i ni oll adnabod hyn am danom ein hunain: ni ddichon neb fod yn ymdrechgar am feddyginiaeth tra y byddo yn hollol anwybodus o'i fod yn afiach.

Ond heblaw hyn, yr ydym ni oll yn euog ger bron Duw o bechodau gweithredol, yn ein personau ein hunain, a thrwy hyny yr ydym dan holl felldithion cyfraith sanctaidd Duw, yr hon a droseddasom. Ar y cyntaf, yn nghrëedigaeth dyn, yr oedd swm a sylwedd y gyfraith yn gynnwysedig yn y ddelw hono ar ba un y creodd Duw ddyn. Wedi y cwymp, fe roddodd Duw ei gyfraith sanctaidd i Foses ar fynydd Sinai. Fe a'i 'sgrifenodd Duw ei hun hi ar ddwy lech-faen, ac a'i rhanodd yn ddeg o orchymynion byrion, ond ëang a chynhwysfawr iawn. Y mae y pedwar cyntaf ...wyddeynnwys ein dyledswydd tuag at Dduw; a'r chwech

olaf ein dyledswydd tuag at ein cymmydog. Y mae Duw yn erchi cadw y gorchymynion hyn oll, mewn meddwl, gair, a gweithred. Y maent oll "yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda." Nid yw yn gorchymyn dim ond yr hyn sydd gyfiawn ynddo ei hun, ac sydd yn dda ac yn llesol i ni i'w wneuthur. Nid yw yn gorchymyn i ni wneuthur dim i ereill, ond yr hyn a ddymunem ni i ereill wneuthur i ninnau. Y mae pob trosedd o'r gyfraith gyfiawn hon, gan hyny, yn anghyfiawnder: ac y mae Duw yn cyhoeddi mai "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a 'sgrifenwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt: —Cyflog pechod yw marwolaeth:—Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw." Gal. iii. 10. Rhuf. vi. 23. Ezec. xvii. 4..........Bellach, gadewch i mi i ofyn, A ydym ni yn ein hadnabod ein hunain, ein bod yn droseddwŷr o'r gyfraith hon, ac o herwydd hyny yn haeddu melldith a digofaint Duw, yr hwn a'i rhoddodd? A ydym ni yn dëall fod y ddeddf yn dra ëang, ac yn ysprydol: ac nid yn unig yn barnu yn euog y troseddwr allanol o honi, ond hefyd yn bwrw yn euog yr holl ysgogiadau tufewnol y meddwl ag sydd yn groes iddi. A'r galon y mae dyn yn caru Duw, ac yn caru ei gymmydog; y mae pob gweithrediad yn y galon ag sydd yn groes i garu Duw â'n holl galon, a'n cymmydog fel ni ein hunain, yn drosedd o'r gyfraith, a ninnau yn droseddwŷr euog o'i herwydd. O, mor lleied o honom a ŵyr yn iawn beth yw pechod!...... Peidio a gwneuthur yr hyn y mae Duw yn ei orchymyn, neu gwneuthur yr hyn y mae yn ei warafun, ar feddwl, gair, neu weithred, sydd bechod. Pawb a addefant, ysgatfydd, mai pechod yw llofruddiaeth godineb, lledrad, ac anlladrwydd, tori y sabbath, a'r cyfryw feiau anafus: etto, pell yw pawb, ond a argy

oeddir gan yr Yspryd Glân, oddiwrth gydnabod fod pob trosedd, neu *bob peth* sydd groes i'r gyfraith, yn bechod? Oblegid anghyfraith, neu anghydffurfiad â'r gyfraith, yw pechod. 1 Ioan 2. 4. Am hyny y mae pob un yn bechadur ynghyfrif Duw, ag sydd heb gydffurfio â'r gyfraith yn berffaith, o ran yr holl ddyn, corph ac enaid. Y mae yr Arglwydd "yn lânach ei olwg nag y geill edrych ar anwiredd:—ac ni chyfrif yr anwir yn gyfiawn." Ecsod. xxxiv. 7. Gan fod pawb wedi pechu, ac yn ol am ogoniant Duw, y mae pawb hefyd dan felldith cyfraith Duw, ac yn agored i farn o gondemniad.

## PENNOD IV.

### AM Y GYFRAITH, A DYBEN EI RHODDIAD.

OS rhoddodd Duw gyfraith i ddynion, ni a allwn fod yn sicr ei bod yn ogoneddus iawn, ac yn addas i'r Duw a'i rhoddodd. Nis dichon Duw da roddi cyfraith ddrwg; na Duw cyfiawn roddi cyfraith anghyfiawn; na Duw sanctaidd roddi cyfraith ansanctaidd. "Y mae y ddeddf yn sanctaidd; a'r gorchymyn yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda." Y mae ein pechadurusrwydd ni, gan hyny, yn cyfatebol i'n hanghydffurfiad â'r ddeddf. Fe ddywed yr Apostol, mai un dyben mawr o roddi y gyfraith, oedd, "fel yr amlâi camwedd:" sef, yw hyny, fel y gwelai dyn ei gamwedd yn aml. Y mae yn aml iawn, ond nid yw dyn yn canfod pa mor ddirifedi ydyw o amldra, heb y ddeddf. Rhuf. iii. 20. a v. 20. Wrth edrych ar y gyfraith hon, yn ei ëangder a'i manylrwydd, a golygu ei hun yn ei hwyneb, fe all trwy oleuni yr Ysyryd Glân, ganfod mor fawr diamgyffred yw ei bechadurusrwydd, trwy ei anufudd-dod cywi-

lyddus, a'i droseddiadau aneirif o honi. "Fe ymddengys pechod yn bechod, sef yn dra-phechadurus," yn ei liw ei hun, wrth ei gymharu â'r rheol berffaith, sanctaidd hono, sef cyfraith Duw. Rhuf. vii. 13. Gal. iii. 23.——I'r dyben i ni ganfod ein pechadurusrwydd, ac fel y gwelom wirionedd eiriau yr apostol,—"Na chyfiawnëir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf," Rhuf. iii. 20. Gal. ii. 6. mi a ystyriaf ychydig ar bob gorchymyn o ran ei burdeb, ei uniondeb, a'i eangder.

Y GORCHYMYN CYNTAF a ddywed,—*Na fydded i ti dduwiau ereill onid myfi.*

Y mae y gorchymyn hwn yn erchi i ni yn y modd mwyaf difrifol, garu, gwasanaethu, ufuddâu, credu, ofni, a pharchu, y gwir Dduw, â'n holl galon, &c. ac yn llwyr wahardd pob peth sydd wrthwyneb i hyny. Yn awr y mae yr holl ysgrythyrau yn dangos fod y gwir DDUW yn hanfodi yn Dri Pherson Dwyfol, y TAD, y MAB, a'r YSPRYD GLAN, a'r *Tri* hyn mae *Un* ydynt. Felly hefyd y dysg ein heglwys yn ei holl wasanaeth, yn enwedig yn ei herthygl gyntaf,—yn nechre y Litani,—Rhagymadrodd y Cymun am Sul y Drindod,—ac ynghredo St. *Athanasius.* Mae yn ddiammeu ynte fod y gorchymyn hwn yn condemnio yr hereticiaid, y sawl a wadant y Drindod yn Undod, neu Dduwdod CRIST a'r YSPRYD GLAN. Ac heblaw rhai'n, mae pawb ereill na addolant y Tri-un Duw, mewn yspryd a gwirionedd, yn euog wrth y gorchymyn hwn· ac etto leied o'r fath addolwŷr sydd! Mor fynych y bu i'r rhai goreu o honom ni ddynesu at Dduw â'n gwefusau tra yr oedd ein calonau yn crwydro ar ol y byd a'i bethau. Diammeu ynte, os adwaenost dy hunan, y dywedi o ddifrif gydâ ni, yn ngeiriau yr eglwys, *Arglwydd trugarhâ wrthyf,* (am dori y gyfraith hon) *a gostwng fy nghalon i'w chadw hi yn well rhagllaw.*

Yr Ail Orchymyn a ddywed, *Na wna i ti dy hun ddelw gerfiedig, na llun dim a'r sydd yn y nefoedd uchod, nac ar y ddaear isod, nac yn y dwfr tan y ddaear: Na ymostwng iddynt, ac na addola hwynt; canys myfi yr* Arglwydd *dy* Dduw, *ydwyf* Dduw *eiddigus, yn ymweled â phechodau y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth, o'r rhai a'm casânt; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.*

Y gorchymyn hwn a lwyr wahardd bob eilun-addoliaeth; a'r hwn sydd Dduw eiddigus, ac na chaniata i ni garu neb fel ef ei hun, a arch i ni roddi ein calonau oll yn barchus iddo ef.—Er ysgatfydd na bu i ti benlinio fel y Paganiaid deillion, i addoli yr haul, y lleuad, neu y sêr, nac ychwaith ymgrymu gydâg Eglwys Rhufain, i ddelwau a lluniau; etto, a ddarfu i ti erioed osod i fynu ddelwau yn dy galon, lletty a lloches pob eilun-addoliaeth? Nid yn unig addoli pren neu faen, a wna ddyn yn eilun-addolwr; eithr os bydd i ni un amser roddi i unrhyw greadur, neu i unrhyw beth, y lle hwnw yn ein serchiadau a berthyn i Dduw yn unig, y creadur neu y peth hwnw, bydded y peth a fyddo, yw ein Duw ni, a ninnau ydym addolwŷr delwau, ynghyfrif yr hwn "nid edrych fel yr edrych dyn; canys dyn a edrych ar y golygiad, ond yr Arglwydd a edrych ar y galon." 1 Sam. xvi. 7. O herwydd hyn y dywed yr apostol yn bendant, fod cybydd-dod (neu arian-garwch) yn eilun-addoliaeth Col. iii. 5. Ac efe a ddywed am y glwth a'r meddwon, rhai "duw y rhai hyn yw eu bol," Phil. iii. 19. am fod y rhai'n yn rhoi eu serch ar eu boliau, a'r cybyddion ar eu pentwr aur, yn lle ar Dduw yn unig. Ac ni waeth pa un ai bach ai mawr fyddo eu pentwr, na pha un a fydd dim ai peidio, am y geill y tlawd fod

yn eilun-addolwr yngolwg Duw; canys heblaw fod dynion yn fynych yn caru yn ormod y pethau na feddant, cybydd-dod yw tymmer y galon; am hyny, a welir mor fynych yn mhlith y tlodion gwael, a'r boneddigion gwych. Dichon y dyn tlotaf fod y cybydd mwyaf, a'r eilun-addolwr casaf, am fod cybydd-dod yn gasach yn y tlawd nag yn neb. Gan hyny, os nad elli ddywedyd i ti bob munud o'th oes, garu Duw â'th holl galon, meddwl, enaid, a nerth, heb unwaith berchi elw, hawddfyd, dyn, na dim yn fwy na Duw a'i wasanaeth, yr wyt ti yn ddiammeu yn droseddwr o'r gorchymyn hwn, a chennyt achos i weddïo, yn ngeiriau yr eglwys, *Arglwydd trugarha wrthym, a gostwng ein calonau i gadw y gyfraith hon.*

Y Trydydd Gorchymyn a ddywed, *Na chymmer enw yr* Arglwydd *dy* Dduw *yn ofer; canys nid gwirion gan yr* Arglwydd *yr hwn a gymmero ei enw ef yn ofer.*

Y gorchymyn hwn a wahardd bob arfer anmharchus o enw Duw, ac a arch rhoddi pob anrhydedd iddo.—Ond pwy yn fyw a ddywed ei fod yn ddieuog ger bron y gyfraith hon? A fuost ti erioed yn euog o dyngu a rhegu mewn ymadrodd cyffredin? Ac os na buost euog o hyn, etto a ddarfu i ti erioed arfer yn anystyriol y fath eiriau a'r rhai hyn, *O Arglwydd!--O Dduw!--O Crist!--yr Arglwydd a fo'n maddeu i mi! &c. &c.* Nid oes dim yn fwy cyffredin na'r fath halogiad dibris a hyn o sanctaidd enw IEHOFAH, ac etto leied a ystyriant y drwg o hyny. Ond cofiwn mai'r un Duw ac a ddywed, "Na ladd, a ddywed hefyd, Na chymmer fy enw "i yn ofer." A bod pob gorchymyn o'r gyfraith yn dyfod gydâ'r un dwyfol awdurdod. Ymhellach; ai ddarfu i ti yn fynych gymmeryd yn ofer enw yr A

glwydd, hyd yn oed wrth weddïo ar dy liniau, ac yn nhŷ Dduw ei hunan? Hyn a wnaethost bob tro y buost yn gweddio ac yn moli mewn modd oerllyd, ffurfiol, neu o ran arfer, heb barchu ei enw mawr yn dy galon a'th enaid. Yn sicr ynte y canfyddi fod achos i weddio o hyd, *Arglwydd trugarâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw y gyfraith hon.*

Y PEDWERYDD GORCHYMYN a ddywed,—*Cofia gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath, chwe' diwrnod y gweithi ac y gwna dy holl waith, eithr y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: ar y dydd hwn na wna ddim gwaith, tydi na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th anifel, na'r dyn dyeithr a fyddo o fewn dy byrth, canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nef a daear, y môr, ac oll sydd ynddynt, ac a orphwysodd y seithfed dydd; am hyny y bendithiodd yr Arglwydd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef.*

Y mae y gorchymyn hwn, nid yn unig yn gwahardd i ni halogi y Sabbath, eithr yn erchi i ni ei gadw yn sanctaidd; etto mor gywilyddus y dibrisir y gorchymyn hwn, a bod mwy o bechod ysgatfydd yn cael ei wneuthur ar y dydd Sabbath, nac ar yr holl ddyddiau ereill o'r wythnos.--Ymhlith torwŷr hynod y Sabbath, gellir cyfrif pawb a wnant y sul yn ddydd marchnad, o brynu a gwerthu, neu sefydlu eu cyfrifon neu 'sgrifenu llythyrau ar achosion tymhorol, ac hefyd pawb a deithiant heb achos anhepgorol, neu a ymwelant a'u gilydd i wag-siarad ar y dydd hwn.—Halogir y sabbath hefyd gan y sawl a arosant o'u gwirfodd o'r addoliad cyhoedd; ac yn waeth gan y rhai a ânt i'r eglwys yn unswydd i gyfarfod eu cymydogion ar negesau bydol, naill ai yn nhŷ Dduw, neu mor gynted ac y delont allan o hono: Ac yn waeth etto gan y neb a ânt ymaith dan wawdio gwein-

idogion, gwirioneddau, a phobl Dduw, yn lle myfyrio ar yr hyn a glywsant o'r pulpid, a gweddio am fendith arno.—Fe'i halogir hefyd gan y sawl a ânt i'r eglwys, er mwyn gweled a chael eu gweled, neu lygadrythu ar wisgoedd a phersonau ereill. A chanddynt hwythau a arosant gartref ar y sul, gan feddwl eu gwisgoedd yn rhy wael i ymddangos yn y gynnulleidfa; balchder ofnadwy yw'r achos o hyn oll, ac am hyny yn dra ffiaidd yngolwg y Duw hwnw a drig gydâ 'r isel a'r gostyngedig o galon yn unig. Fe'i halogir hefyd gan y rhieni, meistri a meistressi na roddant i'w plant a'u gwasanaeth-ddynion addysgiadau duwiol ar y dydd hwn, eithr goddef iddynt ei dreulio yn chwedleua am y byd, yn segur rodiena, neu ddilyn eu coeg bleserau eu hunain. Esa. lviii. 13.

Diammeu y canfyddi weithian ddigon o achos i ymddarostwng am dy bechodau yn erbyn y pedwar gorchymyn cyntaf o'r gyfraith, y rhai a gynnwysant dy ddyledswydd tuag at Dduw; a thi weli mai cymmwys iawn i'n heglwys ddysgu ei haelodau i ddywedyd yn ostyngedig ar ol pob un o honynt, y weddi hon; *Arglwydd trugarhâ wrthym a gostwng ein calonau i gadw y gyfraith hon.*

Y PUMMED GORCHYMYN a ddywed, "*Anrhydedda dy dad a'th fam, fel yr estyner dyddyddiau ar y ddaear, yr hon a rydd yr* ARGLWYDD *dy* DDUW *i ti.*"

Mae y gorchymyn hwn yn erchi i blant dalu pob anrhydedd dyledus i'w rhieni, ac yn gwahardd pob ymddygiad annharchus yn y rhai isel radd tuag at y rhai a osododd Rhagluniaeth yn ben arnynt. Amlwg yw ynte fod plant yn tori y gorchymyn hwn o'r gyfraith, trwy ddangos yspryd ystyfnig a dirmygu tuag at eu rhïeni, a gommedd ufuddâu i'w gorchymynion cyfreithlon. Ac nid hwy yn unig, eithr gwas

anaeth-ddynion hefyd a ymddygant yn anmharchus a sarug tuag at eu meistri a'u mistressi, yn lle dangos ffyddlondeb eithaf, eithr bod yn dwyllodrus a gwastraffus o'r hyn sydd dan eu dwylaw, ydynt droseddwŷr o'r gorchymyn hwn. Felly hefyd, pawb a ddirmygo neu a wrthodo geryddon ac addysgiadau eu tadau ysprydol, sef gweinidogion ffyddlon yr efengyl, ydynt droseddwŷr erchyll o'r gorchymyn hwn.

Ac megis y mae dyledswydd oddiwrth rai isel radd tuag at y rhai uwch, felly rhaid fod dyledswydd oddiwrth rai uchel radd tuag at rai îs—Dylai rhïeni ofalu am eu plant a'u dwyn i fynu yn "addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd;" (Eph. vi. 4.) a bod bob amser yn barod i annog pob ymddangosiad o grefydd yn eu meddyliau tyner. Dylent dymheru eu hawdurdod â thiriondeb, "heb yru eu plant i ddigio."—Dylai meistri lwyr dalu cyflogau cymmwys i'w gwasanaeth-ddynion, ac hefyd wobrwyo y da a'r diwyd. Dylent fod yn rhesymol yn eu gorchymynion, a chaniatâu iddynt amser cymmwys i wasanaethu Duw yn gyhoedd ac yn ddirgel. Dylent hefyd osod ger eu bron esampl dda, yn eu bucheddau eu hunain, a'u galw beunydd ynghŷd i wrando gair Duw, ac i weddïo yn y teulu. Yn lle hyny, O gynnifer o wasanaeth-ddynion na chlywant ddim gan rai meistri a meistressi ond ymdaeru, tyngu a rhegu o ddydd i ddydd, ac o flwyddyn i flwyddyn.—Dylai gweinidogion hwythau wilio dros y praidd a ymddiriedwyd i'w gofal, a "bod yn daer mewn amser, ac allan o amser, gan argyoeddi, ceryddu, ac annog, gydâ phob hirymaros ac athrawiaeth." 2 Tim. iv. 2. Rhaid iddynt fod yn onest, nid yn ddau-eiriog, nid yn ymroi i wîn, nid yn budrelwa." 1 Tim. iii. 8. Nod hynod yn yr ysgrythyr ar wir weinidog i Grist, yw ei fod yn "ba-

rod i hyfforddi." Ni thybia y fath hyn yn ddigon iddo roddi pregeth neu ddwy i'w braidd ar y sul, eithr a lafuria yn eu plith drwy yr wythnos, gan fyned o dŷ i dŷ, a'u cynghori yn ddirgel, 'a chwilio i gyflwr eu heneidiau.—Yn fyr, pob gweinidog ffyddlon a fydd o feddwl yr apostol, "Ni farn iddo wybod dim yn mhlith ei bobl, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Ond ai hyn yw gwahanol nod y rhan fwyaf o weinidogion? Och! rhy wir fod amryw mewn urddau sanctaidd, yn ymroi i wybod a siarad llawer mwy am eu degymau a'u gofynion, eu daear a'u hanifeiliaid, eu chwareuon a'u difyrwch, nac am "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio!" Oni chymmer llawer y cnû, heb edrych ond anfynych am y praidd, ac ysgatfydd a gyflogant arall i lafurio drostynt, am brîs isel? Felly cymmwys iawn y gellir arfer galarnad y prophwyd gynt yn erbyn amryw o weinidogion ein dyddiau ni: "Gwae fugeiliaid Israel, y rhai sydd yn eu porthi eu hunain: oni phortha y bugeiliaid y praidd? Y brasder a fwytewch, a'r gwlan a wisgwch, ond ni phorthwch y praidd. Ni chryfasoch y rhai llesg, ac ni feddyginiaethasoch y glâf, ni rwymasoch y ddrylliedig chwaith, a'r gyfeiliornus ni ddygasoch adref, a'r golledig ni cheisiasoch: eithr llywodraethasoch hwynt â thrais ac â chreulondeb." Ezec. xxxiv. 2, 3, 4.

Y Chweched Gorchymyn a ddywed, *Na ladd.*

Y gorchymyn hwn a wahardd nid yn unig lofruddiaeth, (neu ddwyn bywyd dyn) eithr hefyd pob digter, llid, malis, cenfigen, a thymmerau creulon ereill; Ac a arch i ni wneuthur ein goreu er cynnal iechyd a llwyddiant corph ac enaid ein cymmydog. Dywed ein Harglwydd i ni y gellir lladd yn y galon yn gystal ac yn weithredol. (Mat. xv. 19.) Ac yn wir

nid oes llofruddiaeth allanol ond a dardd o'r galon; yno y trig holl fwriadau drwg, y rhai a ddiweddent yn fynych mewn tywallt gwaed a llofruddiaeth, oni bai eu rhwystro gan ras attaliol: am hyny, y dywed yr ysgrythyr, "Pob un ag sydd yn casâu ei frawd, lleiddiad dyn yw." (1 Ioan iii. 15.) Mae ef yn llofrudd llwyr yngolwg y Duw sanctaidd hwnw a farn bob gweithred yn ol bwriad y galon; a bydd y neb a ddywedo mewn llid, *Raca*, (adyn diras) mewn perygl, nid o farn yn unig, eithr o dân uffern hefyd. (Mat. v. 22.) Pe ystyriai dynion hyn, byddai llai dadwrdd ac ymryson nag y sydd; a gwilient ar gynhyrfiad cyntaf llid, rhag iddo dori allan yn llofruddiaeth gweithredol, hâd pa un yw llid.

O leied a feddyliodd amryw o'r creaduriaid truenus hyny a grogwyd, y terfynai eu llid a'u digter felly; pe dywedasid hyny wrthynt, buasent barod i ateb fel Hazael, "Ai ci yw dy was, fel y gwnelai efe y mawr beth hyn?" 2 Bren. viii. 13.—Maent hwythau hefyd yn tori y gorchymyn hwn yn amlwg, y neb a ddymuno farwolaeth câr neu gyfaill, fel yr etifeddont hwy eu meddiannau.

Y mae etto waeth llofruddiaeth na lladd y corph, sef lladd yr enaid, drwy wneuthur y rhan oreu ac anfarwol hon, yn ddarostyngedig i chwerw boenau angeu tragywyddol: a pha beth yw yr achos o'r llofruddiaeth hwn? Pechod ydyw. Pob pechod a wneir sydd megis picell a wthier yn yr enaid; ac etto pwy a all ddyweid, ei fod yn lân oddiwrth y llofruddiaeth hwn? Neb. Neb a'r a adwaen ei gyflwr wrth natur ac ymarferiad; canys wrth bechu, ti a leddaist dy enaid dy hun, ac enaid dy gymmydog, drwy beri iddo ef bechu yn ol dy esampl ddrwg di.—Y meddwon, (a hudant ereill i feddwl fel eu hunain) puteinwŷr, go-

dinebwŷr, a'r aflan oll, ydynt mewn modd neillduol yn euog o ladd eneidiau dynion ereill, drwy fod yn gyfranog o'u pechodau hwynt.

Ond y mae y trydydd rhyw o lofruddiaeth, creulonach etto na 'r ddau o'r blaen, sef croeshoelio Mab Duw. Pechod a wnaeth y chwerw farwolaeth hon hefyd, h. y. dy bechodau di a minnau, O bechadur, oedd yr hoelion hyny, a sicräodd y bendigaid Iesu ar felldigaid bren y groes; h. y. oni buasai am bechod, ni chroeshoeliasid Arglwydd y bywyd a'r gogoniant. Ac am hyny yr apostol Paul, wrth lefaru am y rhai a ddychwelant at eu pechodau, "fel ci at ei chwydiad ei hun, neu hwch wedi ei golchi i'w hymdreiglfa yn y dom;" a haera, eu bod "yn ail groeshoelio iddynt eu hunain, Fab Duw." Heb. vi. 6.

Pwy ynte a ddywed nad yw euog o lofruddio yn y tair ffordd hon, pan bwysir ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd yn nghlorianau cyfraith dra sanctaidd Duw?

Y SEITHFED GORCHYMYN a ddywed, *Na wna odineb.*

Y gorchymyn hwn a wahardd chwantau cnawdol o bob math, ac a ofyn y dyweirdeb puraf. Er mai anrhydeddus yw prïodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig; etto puteinwŷr a godinebwŷr a farn Duw." Heb. xiii. 4. Nid yn unig y dyn a halog wraig ei gymmydog a geir yn euog wrth y gorchymy hwn; eithr pob meddwl, gair, neu olwg anllad, a wn ddyn yn odinebwr gerbron Duw: gan hyny, pan oed ein Harglwydd ei hun yn esponio y gorchymyn hw dywedodd wrth ei wrandawŷr, fod "pob un sydd edrych ar wraig, i'w chwennychu hi, wedi gwneuth eisoes odineb â hi yn ei galon." Mat. v. 28. Os y ti ynte yn lân oddiwrth y weithred allanol o odine

phuteindra, etto pwy a ddywed ei fod yn lân oddiwrth odineb y galon a'r llygaid?

O pa nifer o amrywiol fath o chwantau anifeilaidd a ffieidd-dra a genhedlir ac a faethir yn y galon, na tharddant byth i'r weithred allanol, o eisieu cyfleusdra, rhag ofn clefydau, rhag cywilydd, ac ofn colli gair da! "O'r galon (medd ein Harglwydd) y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, torpriodasau, godinebau." Mat. xv. 19. Heblaw hyn, pa gymmaint o anlladrwydd ac aflendid a wneir yn y dirgel na ŵyr neb am dano ond Duw, a chydwybod y pechadur ei hunan; a hyn, ysgatfydd, gan amryw a gyfrifer yn marn y byd, yn ddynion diwair a dihalog eithaf. Pawb ag a borthant eu blŷs, a wisgant ddillad anweddaidd, a ymbleserant mewn siarad budr, neu edrych ar luniau, baledau, a llyfrau anllad, ydynt hefyd yn droseddwŷr o'r gorchymyn hwn. Yn ol y cwbl, pa achos sydd i bawb o honom ni lefain allan, yngeiriau ein Litani, *Rhag godineb, a phob pechod marwol arall, gwared ni Arglwydd daionus.*

Y mae hefyd odineb ysprydol, am ba un y sonia yr ysgrythyr yn fynych; a hwn a wneir drwy osod y serchiadau hyny a berthyn i Dduw fel ein Priod cyfammodol, (Esa. liv. 3.) ar y byd ac ar bechod. Yn erbyn y godineb a'r puteindra ysprydol hwn y gwaeddai y prophwydi gynt yn fynych; a St. Iago a ddywed yn bendant wrth y sawl sydd a'u calonau wedi ymddyeithro oddiwrth y Duw a'u gwnaeth, a myned i gyfeillach â serch y byd, "Chwi odinebwŷr a godinebwragedd, oni wyddoch chwi fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw? Pwy bynag gan hyny a ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, y mae yn elyn i Dduw." Iago iv. 4.—Pwy weithian all ddyweid, Yr wyf fi yn rhydd oddiwrth y pechod hwn? Diammeu fod i ti,

ddarllenydd, pwy bynag wyt, achos i ymddarostwng i'r llwch gerbron Duw, a llefain yn wastadol, *Arglwydd trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw y gyfraith hon.*

Yr Wythfed Gorchymyn a ddywed, *Na ladrata.*

Y gorchymyn hwn, nid yn unig a wahardd i ni ddwyn ymaith eiddo ein cymmydog, eithr a bâr i ni fod yn eithaf cyfiawn ac uniawn yn ein holl ymddygiad. Am hyny maent hwy yn tori y gorchymyn hwn, y neb a hudo neu a dwyllo eu cymmydogion wrth brynu a gwerthu; a'r sawl a guddiant feiau eu dodrefn, gan werthu megis difai y peth nad yw felly; a'r rhai a dderbyniant elw afresymol; a'r sawl a wna niwed i dŷ, dodrefn, neu anifeiliaid eu cymmydog: a'r sawl a dwyllant eu gweinidog o'i ddegymau, neu y brenin o'i ardreth, drwy farchnata moddion anghyfreithlon; a'r sawl a redant mewn dyled, neu a fenthyciant arian nad ydynt debyg o dalu yn ol, neu a gymmeront ormod llôg am arian roddant allan: Ac nid yw twyllo ein cymmydog o'i eiddo mewn chwaräeyddiaeth; ac ofer gampau, ddim amgenach yngolwg Duw na lladrad. Y mae yntau hefyd yn tori y gorchymyn hwn, y sawl na chynnorthwyo y tlawd yn ol ei allu; a'r sawl a fo yn segura gan ballu a gweithio; a'r sawl a wario yr hyn a ddylai fyned at gynnaliaeth ei deulu, mewn tafarndai, neu leoedd o'r fath. Gwasanaeth-ddyniod a wastraffont, neu a roddant i ereill, eiddo eu meistri a'u meistressi, heb eu cenad, ydynt hefyd droseddwyr o'r gorchymyn hwn, yn gystal a'r pummed.

Y Nawfed Gorchymyn, a ddywed, *Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.*

Y gorchymyn hwn a wahardd, nid yn unig dyngu anudon mewn llŷs barn, er niwed i'n cymmy-

dog, eithr pob celwydd, gogan, enllib, a drygair pa bynag. Ac etto lawned yw y byd o'r pethau hyn? Cymmwys y dywed yr apostol am y tafod, mai "aelod bychan, a drwg anllywodraethus ydyw, na ddichon un dyn ei ddofi;" (Iago iii. 5, 8.) canys Duw yn unig a ddichon hyn: ïe, mor gyffredin yw y pechod o ddywedyd celwydd er niwed i gymmydog, a bod llawer fel yn meddwl nad allent na byw na llwyddo heb hyny: dyma pa'm y dywedir cynnifer o gelwyddau mewn siopau, ffeiriau, a marchnadoedd, er mwyn cymmeryd mantais ar y marchnatwŷr; er, drwy y fath gelwyddau a rhai'n, fod yr wythfed a'r nawfed gorchymyn yn cael eu tori eill dau ar unwaith. A phan ymgynnull amryw ddynion ynghŷd, beth arall yw eu hymddyddanion yn gyffredin onid beio, absenu, a goganu ereill, a hyn mewn bwriad balch i'w derchafu eu hunain ar eu dinystr hwynt. Pa gynnifer hefyd pan wnelont fai, sydd esmwyth ddigon os gallant ei guddio â chelwydd, ac felly yn chwanegu pechod at bechod!

Y DEGFED GORCHYMYN a ddywed, *Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i was, na'i forwyn, na'i ŷch, na'i asyn, na dim a'r sydd eiddo.*

Y gorchymyn hwn a lwyr-wahardd bob chwant anghyfreithlon o gael eiddo ereill; ac hyd yn oed y dymuniad lleiaf yn y galon o fwynâu unrhyw beth yn groes i sanctaidd ewyllys Duw, a gondemnir. Argyhoeddiad o'r gwirionedd hwn, drwy Yspryd Duw, a ddaeth a St. Paul i weled ei hun yn bechadur yn erbyn y gyrafith hono, wrth ba un y dysgwyliai gynt am iechydwriaeth; *Eithr nid adnabum i bechod*, eb efe, h. y. nid adnabum wir natur pechod, *oni bai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta; yr oeddwn i gynt yn fyw heb y ddeddf;* (meddyliodd fod pob peth o'r goreu, am e

fod yn lân oddiwrth bechodau allanol) *ond pan ddaeth y gorchymyn* (yn ei ëangder a'i nerth) *adfywiodd pechod*, (gwasgodd ar ei yspryd ef) *ac yntau a fu farw*; (bu farw i bob gobaith o gael ei achub drwy ei gyfiawnder ei hun, neu ufudd-dod i'r gyfraith foesol) ie, *cafodd y gorchymyn*, neu y gyfraith, *ag oedd i fywyd*, (i roddi bywyd tragywyddol, os gallai ei chadw,) *i farwolaeth*, i'w drosglwyddo i farwolaeth dragywyddol am ei thori; felly *pechod yn cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, a'i lladdodd, ac a weithiodd ynddo bob trachwant.* Mewn geiriau ereill, pan gymharodd ef ei hun â'r rheol uniawn hono, y gyfraith, yn ei ëangder ac ysprydolrwydd eithaf, canfu yn eglurach fod pechod yn dra phechadurus, heb ganddo mwy ddim i ddywedyd o'i blaid ei hun: ond tra yr addefai bod y gyfraith yn sanctaidd, yn gyfiawn, a da, etto gwelodd nad oedd ganddo, o herwydd gwendid a llygredd ei natur, nerth i'w chyflawni; am hyny y cawn ef ar ol yr argyhoeddiad hwn, yn gweddio am gael bod "yn Nghrist, heb ei gyfiawnder ei hun, yr "hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd." Phil. iii. 9. Ai hyn oedd profiad yr apostol Paul? a phwy a fedd y ddegfed ran o'i ufudd-dod ef i'w gyflwyno i Dduw? Neu os wyt yn meddwl fod genyt fwy, a elli wir ddywed, "Mi a lanâis fy nghalon, glân wyf oddiwrth fy mhechodau?" Diar. xx. 9. Ni theimlais erioed na chwant na deisyfiad yn fy enaid yn groes i gyfraith, meddwl ac ewyllys Duw; os na elli ddywied hyn, yr wyt yn droseddwr o'r degfed gorchymyn, ac yn ddarostyngedig i'r farn ofnadwy hono a fygythir yn erbyn pob enaid dyn, a ddaw yn fyr o'r ufudd-dod perffaith a dibechod hwnw a ofyn y Duw sanctaidd genym.

Dyma olwg fer ar ëangder a phurdeb cyfraith sanctaidd Duw! Pwy na chanfydd fod i ni eithaf achos

i grynu ac arswydo yn ddirfawr, wrth fyfyrio ar ein hamrywiol droseddiadau o honi, ac ar y felldith dyledus gyfiawn i ni am ein troseddiadau hyn?—Y mae yn amlwg fod yn llwyr anmhossibl i un dyn, er cwymp Adda, gadw y gyfraith hon yn ei ëangder a'i hysprydolrwydd eithaf. "Pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw;" o herwydd hyny y "cauir pob genau, ac y mae yr holl fyd dan farn Duw." Rhuf. iii. 19, 23. Ni roddwyd mo y gyfraith i ddyn syrthiedig, fel y cai fywyd trwyddi, ond 1. i ddangos ei fod wedi colli ei fywyd trwy bechod. Rhuf. v. 21. 2. I ddangos natur pechod, a hollol bechadurusrwydd dyn, a'i ddwfn lygredigaeth. 3. I ddangos uniondeb Duw yn ei lywodraeth, ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd anfeidrol. 4. I amlygu natur y cyfiawnder hwnw ag sydd yn angenrheidiol i ni i'w gael yn anhepgorol, er ein hiechydwriaeth. 5. I ddangos cyflawnder a gogoniant cyfiawnder Crist, yr hwn, fel ein mechnïydd a'n cyfryngwr, a fawräodd y gyfraith, ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus. 6. Fel y byddai yn athraw at Grist, fel y'n cyfiawnâid trwy ffydd. Gal. iii. 23. 7. I fod byth yn rheol o fywyd i bawb a gyfiawnâwyd trwy ffydd yn Nghrist. Er eu bod yn farw i'r ddeddf, a'r ddeddf iddynt hwythau, fel cyfammod, i gael bywyd trwyddi, etto y maent yn ufuddâu iddi yn wirioneddol, o gariad at Dduw, ac ufudd-dod iddo, wedi eu hadnewyddu yn yspryd eu meddwl, ac wedi eu creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-darparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt. Eph. ii. 10.—--Dyma ddybenion mawrion y ddeddf. Y mae gan hyny yn beryglus iawn i neb hyderu am eu derbyniad gydâ Duw ar eu hufudd-dod eu hunain i'r gyfraith hon: neu i leiâuei manylrwydd, ei anrhydedd, a'i godidowgrwydd, trwy haeru i Grist ddyfod i'r byd i leiâu neu

i lareiddio ei gofynion. Os ydyw ei holl ofynion yn gyfiawn, y mae yn anmhossibl i Dduw cyfiawn leiâu ei gofynion union a sanctaidd. Nid gwaith Crist yma yn y byd oedd lleiâu ond ateb ei gofynion, ei mawrâu, a'i gwneuthur yn anrhydeddus.—-Weithian gadewch i mi ddeisyf arnoch holi eich hunain, beth a wyddoch chwi yn brofiadol am gyfraith Duw? A gawsoch chwi erioed eich argyhoeddi wrth y gyfraith hon o'ch pechadurusrwydd? A ddarfu i chwi erioed weled nad oes i chwi gyfiawnder, maddeuant, na derbyniad gydâ Duw, yn gwbl, nac mewn rhan, trwy eich ufudd-dod a'ch haeddiant eich hunain? A ydych chwî yn deall fod y gyfraith i ni bechaduriaid, y troseddwyr euog o honi, yn weinidogaeth angeu a damnedigaeth? Y mae cynnifer ag y sy o weithredoedd y ddeddf; h. y. yn hyderu ar eu hufudd-dod iddi am iechydwriaeth, dan felldith. Nid ar y gyfraith y mae y bai; canys y mae y ddeddf *yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda:* ond arnom ni y troseddwŷr o honi y mae y bai yn gwbl. Ni ddichon dyn pechadurus, a'i natur yn hollol lygredig, roddi perffaith ufudd-dod i gyfraith berffaith sanctaidd; namyn i'r gwrthwyneb, y mae bob amser yn gweithredu yn ei herbyn ac yn ei throseddu.

A fu 'r ystyriaethau hyn erioed yn aflonyddu eich cydwybodau? ac a barodd teimlad o'ch euogrwydd, gwendid a thrueni, erioed i chwi ddymuno a chwilio am waredigaeth oddiwrth felldith y ddeddf ac oddiwrth y farwolaeth hono sydd gyflog ddyledus am bechod?—Os na ddo, ofer dangos i chwi ffordd gobaith a diangfa: Ni byddai hyn ddim i chwi, y rhai ydych mor ddifater am waredigaeth a'r iach am feddyg; ond os ydych yn llwyr flinderog a llwythog dan faich pechod; os y'ch llwyr ddrylliwyd gan arswyd y gyfraith y drosedddasoch, ac yn teimlo yn ei

heneidiau, mai cyfiawn yw i Dduw eich damnio, yna bydd yn dda genych fy nilyn at y cwestiwn mawr nesaf, hyny yw,

## PENNOD V.

### AM YR EFENGYL.

BETH a wyddost ti am efengyl Crist?—Ystyr y gair efengyl yw, *Newyddion da*; am ei bod yn dwyn newyddion da o lawenydd mawr i bechaduriaid euog dinerth.—Ond a deimlaist ti hon, yn wir, yn newydd da, ac yn llawenydd mawr i'th galon dy hun? A wybuost ti erioed yn dy holl fywyd pa beth yw gorfoleddu yn Iesu Grist, yr hwn yn unig " a ddyg fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy 'r efengyl." 2 Tim. i. 10. O pa ryfeddol gariad a gras! iddo ef, " yr hwn sydd uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd," Rhuf. ix. 5. gogyfuwch â'r Tad yn mhob perffeithrwydd dwyfol a phriodoliaidd, gymmeryd ato y natur ddynol, a gweled bod yn dda gymmeryd, " ei eni o wraig, a'i wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad." Gal. iv. 4. 5. Pa mor ddirfawr y poenau a'r loesau a ddyoddefodd efe, pan dywalltodd ei enaid hyd angeu, a rhoddi i fynu yr yspryd ar fynydd Calfaria. Yno y talodd efe y ddyled gyfiawn ag oedd cyfiawnder yn ofyn, yno " yr offrymodd efe ei enaid yn aberth dros bechod, ac y roddodd ei einioes yn bridwerth dros lawer." Mat. xx. 28. Yno y safodd efe yn fechnïydd pechaduriaid, " a dyoddefodd y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw," 1 Pet. iii. 18. ac yno Efe a archollwyd am gamweddau ei bobl, cospedigaeth eu heddwch hwynt oedd arno ef; a thrwy ei gleisiau ef yr iachäwyd hwynt." Esa. liii. 5.

A wyt ti ynte yn teimlo mai pechadur tlawd, euog wyt! ac yn ofni melldith y ddeddf? Cofia i Grist lwyr brynu ei bobl oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur ei hun yn felldith drostynt; canys y mae yn 'sgrifenedig, Melldigedig yw pob un sydd ynghrog ar bren." Gal. iii. Wele Crist a groeshoeliwyd ar bren ac a ddyoddefodd holl felldith y ddeddf: Efe gan hyny yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sy 'n credu." Rhuf. x. 4. —A ydyw 'th bechod yn dra mawr, ac yn erbyn goleuni, ac yn erbyn cydwybod? A wrthgiliaist ti yn fynych, er dy dröedigaeth, i bechodau atcas a ffiaidd? Ac a wyt ti yn dyweid i bechod lwyr ddinystrio dy enaid? etto na lwyr anobeithia; eithr edifarâ: a chofia i Grist lwyr ddinystrio yr hwn a'th ddinystriodd di. Canys dybenodd gamwedd, Dan. ix. 24. ac a lwyr ddybenodd bechod trwy ei aberth ei hun. Heb. ix. 26. Er bod Duw yn gyfiawn ddigofus o herwydd ein pechodau a'n hanwiredd, etto, Iesu ein Harchoffeiriad mawr a wnaeth iawn "am bob math o bechod, Mat. xii. 31. ac a ddygodd i fewn gyfiawnder tragywyddol,' Dan. ix. 24. sef cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist i bawb, ac ar bawb a gredant; canys nid oes gwahaniaeth (o ran eu derbyniad gydâ Duw) oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw, a hwy wedi eu cyfiawnâu yn rhad trwy ei ras ef, trwy 'r prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Rhuf. iii. 22.

Nid yw na'r gyfraith na'r efengyl yn gofyn pa un a bechaist ti, fel hyn, ac fel arall; eithr os pechaist mae y gyfraith yn dy gondemnio, ac yna yr wyt dan felldith. A'r efengyl a ddywed wrthyt, "Er fod dy bechodau yn goch fel ysgarlet," ac yn amlach na gwallt dy ben, etto os rhoddodd Duw i ti galon edifeiriol, a dymuniad i ddyfod at Iesu Grist, "ei wae

ef a'th lanâ di oddiwrth bob pechod." 1 Ioan i. 7. Gerbron y gyfraith nid oes neb cyfiawn, nac oes un. (Rhuf. iii. 10.) Gerbron yr efengyl, llais pob euogrwydd ac anghrediniaeth a ddystawa, ac a syrth i'r llawr.---Llais y gyfraith yw, *Y dyn a wnel y pethau hyn a fydd byw trwyddynt*. Rhuf. x. 5. Llais yr efengyl yw, *Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi*. Act. xvi. 31. Etto byth yr wyt yn ofni angeu; mae pechod yn ddigon i beri hyny, canys *cyflog pechod yw marwolaeth*. Rhuf. vi. 23. Ond a roddaist ti dy achos yn llaw Crist? yna cofia iddo ef ddirymu angeu, (2 Tim. i. 10.) fel nad allo ddrygu credadyn byth, am fod pechod, colyn angeu, wedi ei dynu; ac angeu ei hun wedi ei lyngcu yn y fuddugoliaeth a ynnillodd Crist ei hun arno; *Canys efe trwy farwolaeth a ddinystriodd yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol; fel y gwaredai hwynt, y rhai trwy ofn marwolaeth, oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed;* (Heb. ii. 14, 15.) fel y gallo pob credadyn yn Nghrist, y gwanaf a'r tlotaf oll, gymmeryd i fynu eiriau St. Paul, gan ddywedyd, *O angeu, pa le y mae dy golyn? O uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth? Colyn angeu yw pechod, a grym pechod yw y gyfraith. Ond i Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist*. (1 Cor. xv. 55, 57.)---Yr un modd y prophwyd Hosea, wrth lefaru yn enw Crist, a orfoledda fel hyn: *O law y bedd yr achubaf hwynt, oddiwrth angeu y gwaredaf hwynt; byddaf angeu i ti, O angeu; byddaf dranc i ti, y bedd; cuddir edifeirwch o'm golwg:* (Hos. xiii. 14.) h. y. Ni bydd i mi mewn un modd, nac ar un cyfrif, gyfnewid y peth a aeth allan o'm genau.

Yr efengyl a symudodd ymaith bob rhwystr a oedd rhwng Duw cyfiawn a'i greaduriaid pechadurus;

a gorphenwyd y cwbl gan ein IMMANUEL gogonedd-us.—Cyfiawnder y ddeddf a gyflawnodd efe drwy ei fywyd;—melldith y ddeddf a symudodd ymaith trwy ei farwolaeth;—dilëodd yr ysgrifen-law, gan ei hoelio wrth y groes; (Col. ii. 14.)—dinystriodd y gelyniaeth; (Eph. ii. 15, 16.)—a gwnaeth lwyr ddiwedd ar bechod ei bobl, gan ei ddilëu, *trwy ei aberthu ei hun.* —Concweriodd a dirymodd angeu;—gorchfygodd y byd; (Ioan xvi. 30.)—gorfoleddodd am ei fuddugoliaeth ar holl alluoedd uffern a'r bedd; a thrwy ei adgyfodiad efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd. (Col. ii. 15.) *Pwy yn awr a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnâu: Pwy yw yr hwn sydd yn damnio?* (Rhuf. viii. 33, 34.) Os ceiff yr apostol ateb ei ofynion ei hun, efe a ddywed i ni, *Nid oes dim damnedigaeth* (dim o un lle) *i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu;* (Rhuf. viii. 1.) *trwy yr hwn y cyfiawnäwyd pob un sydd yn credu, oddiwrth yr holl bethau na allent trwy gyfraith Moses gael eu cyfiawnâu oddiwrthynt.'* (Act. xiii. 39.)

Y mae y rhai sydd yn gwir gredu ynddo, yn cael, 1. Eu gwaredu yn rhad rhag pob drwg. 2. Y maent yn cael eu cyfoethogi yn rhad â phob bendith ysprydol.

Yn gyntaf ynte, mae ganddynt yn Nghrist Iesu, IECHYDWRIAETH RHAG POB DRWG;—sef, Iechydwriaeth rhag melldith y ddeddf;—Iechydwriaeth rhag euogrwydd a chospedigaeth pechod;—Iechydwriaeth rhag llywodraeth a halogrwydd pechod;—Iechydwriaeth rhag ing a cholyn angeu;—Iechydwriaeth rhag gallu satan, uffern, a'r bedd.

Yn fyr, mae efengyl Crist yn Iechydwriaeth rhag dwylaw ein holl elynion, fel y gallom *ei wasanaethu ef yn ddiofn, mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef, holl ddyddiau ein bywyd.* ...*n bywyd*

Ac megis ac y mae yr efengyl yn gwaredu rhag pob melldith, felly y mae yn rhoddi y credadyn, trwy nerthol weithrediad yr Yspryd Glân, mewn meddiant o bob bendith; yn enwedigol,

Gwir undeb â Christ, maddeuant rhâd am bob pechod, cyfiawnder personol gerbron Duw, a sancteiddrwydd diffuant a thrwyadl, i'w addasu i fwynâu Duw: (Ioan xvii. 21, 22, 23. Rhuf. iii. 24, 25, 26. 2 Cor. v. 21.)—Heddwch cydwybod, fel y bo yr enaid "yn gyflawn o lawenydd a thangnefedd gan gredu, ac y cynnyddo mewn gobaith trwy nerth yr Yspryd Glân." Rhuf. v, 1. a xv. 13.—-Mabwysiad i deulu Duw, "yspryd mabwysiad yn y galon, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad." Rhuf. viii. 15, 16. —Perffaith gariad, yr hwn a fwrw allanbob ofn poenus. 1 Ioan iv. 8.—Cymdeithas a chymmundeb â'r Tad, ac â'r Mab, trwy yr Yspryd sydd yn trigo ynddo. 1 Ioan i. 3. Phil. ii. 1.—Dyfod yn hyderus, ac mewn llawn sicrwydd ffydd, at orsedd-fainc gras. Eph. iii. 12. Heb. iv. 16.—Sancteiddâad trwy yr Yspryd i ufudd-dod, a'r gydwybod wedi ei thaenellu â gwaed Iesu Grist, a'i phuro oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw mewn rhyddid dirwystr. 1 Petr i. 2.—Parâad mewn gras a sancteiddrwydd hyd y diwedd, a'r enaid yn cael ei gadw trwy allu Duw drwy ffydd i iechydwriaeth.

Mewn gair, pob perffeithrwydd yn Nghrist. Col. ii. 10.

O, pa oruchwyliaeth ogoneddus yw y cyfammod hwn! Pa mor llawn o ras! Pa mor ffrwythlawn o drugaredd! Yn llifeirio drosodd o addewidion mawr iawn a gwerthfawr, i fywâu ein gobaith, i chwanegu ein sel, a phrysuro ein traed yn llwybrau heddwch a duwioldeb! Drwy rinwedd rhyfeddol

waith prynedigaeth, daw Duw etto i breswylio gydâ dyn, yr hwn a gollodd bob cymdeithas a chymmundeb âg ef trwy gwymp Adda. Mae pechod (achos yr holl elyniaeth rhwng Duw a dyn) wedi gwneuthur iawn am dano, a'i ddilëu, " trwy offrymiad corph Iesu Grist unwaith." Heb. x. 10. Adferwyd heddwch etto, ar sail gadarn, " ar well addewidion, ac ar well cyfammod" na'r cyfammod gweithredoedd. Heb. 8. 6. Mae Duw yn awr yn danfon ei Ysbryd i galonau pechaduriaid meirwon i'w hargyhoeddi o'u bod wrth natur yn blant digofaint, a than gondemniad y ddeddf; ac i ddangos iddynt eu meddyginiaeth drwy efengyl ei Fab.

Mae yr un Yspryd yn adgenhedlu ac yn sancteiddio eu calonau; gan eu gwneuthur " yn gyfranogion o'r duwiol anian," (2 Petr i. 4.) drwy roi iddynt i roddi heibio " yr hen ddyn, yr hwn sydd lygredig, yn ol chwantau twyllodrus; a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Eph. iv. 24.—Gan fod ein genedigaeth gyntaf yn enedigaeth mewn pechod a llygredd ar ddelw 'r Adda cyntaf, rhaid i'r enaid yn ddiau gael genedigaeth newydd ar ddelw 'r ail Adda, Iesu Grist, cyn y gallom fyned i mewn i deyrnas nefoedd: ein Harglwydd ei hun a ddywed i ni yn bendant, " Oddi eithr geni dyn drachefn ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;—yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r yspryd sydd yspryd." Ioan iii. 3, 6. Ni ddengys neb byth, dymherau sanctaidd, a gweithredoedd da (h. y. dim a fo boddlon a chymmeradwy gan Dduw) nes eu cyfnewid drwy fywiol ffydd yn y Prynwr, " Canys crëwyd ni yn Nghrist Iesu i weithredoedd da;" Eph. ii. 10. ac nid oes gan neb ond y sawl a gredasant ynddo ef yn gyntaf, na gallu nac ewyllys i'w cyflawni, Tit. iii. 8.

# PENNOD VI.

## Y CYMHWYSIAD.

OND gadewch i ni gymhwyso y pethau hyn:—A wnaeth Duw dydi yn adnabyddus o'r bendithion hyny y darllenaist am danynt? A wyddost ti, drwy dy brofiad dy hun, fod efengyl Crist yn wir, "yn allu Duw er iechydwriaeth." Rhuf. i. 16. A gefaist di dy wir eni o'r Yspryd, a'th greu o newydd yn Nghrist Iesu? A dderbyniaist di ef o ddifrif yn ei holl swyddau, megis PROPHWYD i'th ddysgu,—OFFEIRIAD i heddychu drosot,—a BRENIN i deyrnasu arnat ac ynot? Os nid hyn yw 'th gyflwr, yr wyt yn llwyr druenus! Canys, er meddiannu o honot ddeng mîl o gysuron allanol, mae hyn yn ddigon i chwerwi y cwbl, dy fod dan felldith Duw, ac yn rhaid i ti yn fuan, yn bur fuan, farw, a derbyn cyflog pechod.—Ond os meddi hawl yn Nghrist, yna dedwydd wyt yn wir: deued a ddel, clefydau, profedigaethau, tlodi, danfonir hwynt oll mewn cariad, a thi a gan-fyddi hyn yn y diwedd,

Ymdrech gan hyny i gadw 'th ffydd ar waith, a chei weled y bydd dy holl groesau yn esmwyth i ti, canys "Ni a wyddom fod pob peth yn cyd-weithio er daioni i'r rhai sy 'n caru Duw, sef i'r rhai sydd wedi eu galw yn ol ei arfaeth ef." Rhuf. viii. 28.—Os wyt ti, gan hyny, o'r ychydig nifer ddedwydd hono, canys ychydig ydynt ag sydd wedi "eu troi o dywyllwch [illegible] oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw;" ac os wyt ti yn ymorchestu yn nerth yr Iesu, i fyned i mewn trwy 'r porth cyfyng, (Mat. xvii. 13, 14.) yna cofia fod y ysgrifenedig, "pawb a'r sy 'n ewyllysio byw yn dduw-iol yn Nghrist Iesu, a erlidir;" 2 Tim. iii. 12, ac na

elli fyw mewn cymmundeb â'r byd, " yr hwn sy'n gorwedd mewn drygioni;" 1 Ioan v. 19. am fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw, ac os car neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef. Iago iv. 4. Ni cheiff neb ond y sawl a gymmero i fynu ei groes yma, wisgo coron gras mewn gogoniant. Pe byddech o'r byd, (medd ein Harglwydd bendigedig) y byd a garai'r eiddo, ond oblegid nad ydych o'r byd, eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hyny y mae y byd yn eich casâu chwi; Ioan xv. 19. Gan hyny, " Na chyd-ymffurfiwch â'r byd hwn; eithr bydded eich ymarweddiad yn wastadol dystiolaethu am y byd, fod ei weithredoedd yn ddrwg, ac ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl, Rhuf. xii. 2. heb na'ch hudo gan wen, na'ch ofni gan ŵg a gwawd yr annuwiol a'r halogedig. Ac na thelwch byth, " Ddrwg am ddrwg, neu sen am sen; eithr yngwrthwyneb, bendithiwch." 1 Petr iii. 9.

Yn ail, cofia nad eiddo dy hun wyt, eithr dy brynu â gwerth, ac y dylit gyflwyno dy holl enaid, corph ac yspryd, yn aberth byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw; yr hyn yw'th resymol wasanaeth di. 1 Cor. vi. 2. Rhuf. xii. 1. Bydd llygaid llawer arnat, yn dysgwyl it' gloffi; gwel ynte na roddych achos i elynion yr Arglwydd gablu ffordd gwirionedd, eithr ymdrech drwy'r gras a dderbyniaist, " i harddu athrawiaeth Dduw ein Hiachawdwr yn mhob peth," drwy fuchedd ac ymarweddiad diargyhoedd; " A bydd barod bob amser i roddi ateb am y gobaith sydd ynot, ond bydded gydâ gostyngeiddrwydd, addfwynder, ac ofn." 1 Petr iii. 15.

Nid oes arwydd sicrach o fod efengyl Crist, wedi gwreiddio yn ddwfn yn dy galon, nag ymarwedd-

iad gwir ostyngedig a syml; na dim yn fwy anadlas i ddysgybl yr Iesu addfwyn, isel, na bod yn ddewr, yn sarug, a hunan-ddigonol, am fod " Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ond yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig." Iago iv. 6.

Yn drydydd, cofia er fod y ddeddf wedi ei llwyr ddirymu, a'i dileu fel cyfammod gweithredoedd i ddysgwyl bywyd trwyddi: ac yn yr ystyr hyn fod pob credadyn yn llwyr rydd oddiwrthi, heb ganddi fwy o allu arnynt, na gŵr marw dros ei wraig a briododd drachefn, 1 Petr v. 5. etto, y mae yn parâu mewn llawn nerth fel rheol o fywyd i bawb a unwyd â Iesu Grist, drwy 'r ffydd hono sydd o weithrediad Duw. Am hyny, cymmer ofal neillduol i gyflawni yn iawn bob dyledswydd berthynasol, a chymdeithasol. A wyt ti rieni, meistr neu feistres? Tymhera 'th awdurdod mewn cariad ac addfwynder: edrych ar fod dy esampl gerbron dy blant a'th wasanaeth-ddynion yn gyfryw ag a fo cyttunol â'r efengyl yn mhob peth —Cofia fod eu heneidiau hwynt mewn ystyr wedi eu hymddiried i'th ofal di, mae'n ddyledus arnat gan hyny, ddysgu iddynt fawrion wirioneddau crefydd, a nid yn unig eu galw ynghyd i addoli Duw yn y teulu, eithr dwyn yspryd dy weddiau yn dy holl ymarweddiad, geiriau a gweithredoedd; heb hyn ni wna dy holl broffes ond eu caledu, a'u gosod yn erbyn crefydd.

Ai plentyn neu weinidog wyt? Edrych ar dy fod yn ufudd i'th rieni, meistr, neu feistres, yn mhob peth yn yr Arglwydd; heb byth roddi ateb sarug cyn en, ond gwneuthur dy ddyledswydd mewn addfwynder, diwydrwydd, a ffyddlondeb eithaf, yn y sefyllfa y gwelodd Duw yn dda dy osod.

A wyt ti ŵr neu wraig? Edrych ar dy fod yn llwyr ochelyd yr ymryson a'r anghydfod annedwydd hwnw, yr hwn sydd yn waradwydd, hyd yn oed i'r esgeulus a'r halogedig. I'r dyben hyn, gwylia yn erbyn cynhyrfiad cyntaf anghydfod, canys "pen y gynnen, medd Salomon, sydd megis ped agorid argae;" Diar. xvii. 14. fel y byddoch yn ymgeledd gymhwys i'ch gilydd, "a chyd etifeddion gras y bywyd; rhag rhwystro eich gweddiau." 1 Petr iii. 7.

Ai goruchwyliwr tlawd wyt? Edrych ar dy fod yn ynnill dy fywioliaeth yn foddlon, drwy chwys dy wyneb; gan barotoi yn ddiwyd anghenrheidiau bywyd i'th wraig a'th blant; ac na fydd di, fel y mae gormod, yn segura, neu yfed yn y dafarn, tra mae'r teulu newynllyd gartref, yn llefain am damaid o fara. Cofia, er cysur i ti, fod tlodi â sancteiddrwydd, yn rhagorach o lawer na chyfoeth annuwioldeb; a pha beth bynag fo'th eisieu o bethau 'r byd hwn, mae 'th driniaeth yn llawer amgenach nag a gafodd dy Arglwydd a'th feistr, yr hwn tra fu ar y ddaear, a ddyoddefodd, nid yn unig adfyd, newyn, a syched, eithr heb ganddo le i roi ei ben i lawr. Mat. viii. 20.

A wyt ti yn dilyn unrhyw gelfyddyd? Edrych ar dy fod yn eithaf cyfiawn, onest, a chydwybodol yn dy holl fasnach. O pa waradwydd atgas a ddygir ar grefydd pan mae ei phroffeswyr yn fwy twyllodrus ac anhaws eu trin nag ereill! Pa mor ofnadwy yw clywed dynion parchus, geirwir, yn haeru na allent fyned i siop y cyfryw a'r cyfryw broffeswyr, heb dalu yn ddrutach am eu heiddo, neu ysgatfydd gael gwaeth yn ei ryw, nag mewn lleoedd ereill; neu fod arall â dau bris ar yr un eiddo, ac yn fynych yn gofyn mwy nag y mae yn ddysgwyl gael: Etto, mor fynych y clywn

achwynion o'r fath hyn! Pa achos gan hyny sydd i bawb a fo'n dilyn celfyddyd neu farsiandiaeth, wylio yn erbyn calon galed, fydol, gybyddlyd, na'r hon ni ddichon fod dim groesach i yspryd a thymher gwir gristionogrwydd?

Felly, os wyt wir gredadyn, yn Nghrist, dylit ymroi i rodio yn addas i'th alwedigaeth oruchel;" am mai priodol waith bywiol ffydd, i'w puro'r galon, Eph. iv. 1. gweithio trwy gariad, Gal. v. 6. a gorchfygu 'r byd; 1 Ioan v. 4. tra y mae rhodiad esgeulus, dibrisiad o foddion gras, neu gofleidio unrhyw bechod gwybodus, yn gwaradwyddo dy broffes, ac yn sicr o yspeilio 'th enaid o bob cymmundeb â'r Tad ac â'r Mab; am hyny bydd sobr, gwylia a gweddia. 1 Petr v. 8.

Yn awr i'r hwn a ddichon eich cadw chwi yn ddigwymp, a'ch gosod gerbron ei ogoniant ef, yn ddifeius mewn gorfoledd, i'r unig ddoeth Dduw, ein Hiachawdwr ni, y byddo gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen. Iudas 24, 25.

DIWEDD

*Cambrian Press, Bala, gan R. Saunderson.*